# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 24/11/2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cefnogi Nyrsys

**C11 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer nyrsys yng Nghymru? OAQ(3)2417(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r proffesiwn nyrsio mewn nifer o ffyrdd er mwyn sicrhau ei fod yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o ddarparu gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar gleifion ac o ddatblygu gwasanaethau newydd, megis cefnogi prif nyrsys i arwain gofal mewn wardiau a'i reoli'n effeithiol.

### Trin Diabetes

**C12 David Lloyd**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y driniaeth a ddarperir ar gyfer diabetes? OAQ(3)2419(FM)

**Y Prif Weinidog:** Disgwyliaf i'r driniaeth ar gyfer diabetes fod yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes a'r canllawiau consensws ar gyfer rheoli diabetes mewn plant a'r rheini ar gyfer oedolion.

### Anghydraddoldebau Iechyd

**C13 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru? OAQ(3)2412(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae anghydraddoldebau iechyd yn dal i fod yn broblem sylweddol yng Nghymru, fel mewn mannau eraill. Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy leihau'r anghydraddoldebau cymdeithasol sy'n eu hachosi a thrwy fentrau sydd wedi'u targedu megis y gronfa anghydraddoldebau iechyd a rhaglen y cydweithfeydd bwyd cymunedol.

### Pwerau Deddfu Sylfaenol

**C14 Leanne Wood:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch pwerau deddfu sylfaenol i Gymru? OAQ(3)2426(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi cael amryfal drafodaethau ag aelodau Llywodraeth y DU ynghylch datganoli pwerau i'r Cynulliad o dan Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Amddiffynfeydd rhag Llifogydd

**C15 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amddiffynfeydd rhag llifogydd yng Nghymru? OAQ(3)2418(FM)

**Y Prif Weinidog:** Llywodraeth y Cynulliad sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r arian ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Er 1999, mae'r arian hwn wedi treblu i fwy na £41 miliwn. Yn ôl

amcangyfrifon Asiantaeth yr Amgylchedd, mae 95 y cant o’r 1800 km o amddiffynfeydd yn llwyddo i wneud yr hyn y maent wedi’u cynllunio ar ei gyfer. Mae’r asiantaeth, ynghyd ag awdurdodau lleol, yn paratoi cynlluniau strategol i benderfynu ar bolisïau hirdymor cynaliadwy ar gyfer rheoli llifogydd.